**PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**(Multi-Location MeetinCYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMSs)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 22 Chwefror 2023**

| | |
|---|---|
| **Ccadeirydd:** | P.Rogers |
| **Cynghorwyr**: | T.Bowen, C.Clement-Williams, J.Henton, R.G.Jones, S.Paddison, S.Pursey, S.H.Reynolds, A.J.Richards a/ac M.Spooner |
| **Swyddogion sy'n Bresennol** | K.Jones, A.Jarrett, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, R.Crowhurst, N.Blackmore, C.Furlow-Harris, L.McAndrew, J.Woodman-Ralph a/ac C.John |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Councillors W.F.Griffiths, S.Harris, S.K.Hunt, J.Hurley, N.Jenkins, S.Jones, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, D.M.Peters a/ac J.Hale |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022, 21 Tachwedd 2022 a 30 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd Bwyllgor Craffu'r Cabinet ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Hunanasesiad 2021/2022

Derbyniodd Aelodau wybodaeth am hunanasesiad drafft y cyngor ar gyfer 2021/2022. Mae'n ofynnol i'r cyngor gyhoeddi'r hunanasesiad o fewn 4 wythnos iddo gael ei gymeradwyo yn unol â'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Soniodd yr Aelodau am faint o fanylion oedd yn yr adroddiad ac awgrymwyd y syniad o gael casgliad ar y dechrau i gael trosolwg gwell ar ddechrau adroddiadau. Dywedodd Swyddogion fod gofyniad statudol arnynt i gynnwys manylion penodol ond dywedasant y byddant yn cyflwyno fersiwn hawdd ei darllen pan fyddant yn ei gyhoeddi. Dywedodd Swyddogion hefyd y byddant yn ystyried sylwadau'r bwrdd ynglŷn â chael crynodeb ar ddechrau adroddiadau pan fyddant yn llunio asesiad 2022/23.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Sefydlu Fforwm Cyswllt mewn perthynas â Chyrchfan Antur Cwm Afan

Hysbyswyd yr Aelodau am gais Wildfox Resorts Afan Valley Limited, i sefydlu fforwm cysylltu â chynrychiolwyr o Wildfox Resorts Afan Valley Limited mewn perthynas â datblygu Cyrchfan Antur Cwm Afan. Prif ddiben y fforwm cyswllt yw sicrhau y gwneir yn fawr o fanteision cymdeithasol, amgylcheddol, ac economaidd Cyrchfan Antur Cwm Afan ar gyfer y cymunedau lleol, yn unol â'r adroddiad.

Mynegodd Aelodau bryderon yn ymwneud ag eitemau 8 a 9 o becyn agenda'r Cabinet. Nodwyd bod yr effaith ar gymuned y cwm ac effaith ar y gweithlu ar gyfer y ddau adroddiad yn manylu nad oedd unrhyw oblygiadau. Teimlai'r Aelodau y byddai effeithiau sylweddol ar y gweithlu o ran yr adroddiadau oherwydd y gefnogaeth weinyddol y byddai ei hangen gan adrannau perthnasol.

Roedd Aelodau hefyd yn teimlo y gallai fod effaith ar wardiau eraill a byddai ystyried cynnwys Aelodau o Gwm Afan isaf ar y pwyllgor cyswllt yn fuddiol. Esboniodd Swyddogion y byddai'n agored i Aelodau a oedd wedi'u penodi i'r fforymau priodol nodi a oes unrhyw broblemau a allai gael effeithiau ar wardiau cyfagos a gellir ailystyried y cylch gorchwyl bob amser yn y fforymau hynny.

Holodd yr Aelodau hefyd ynghylch y posibilrwydd o ddosbarthu cofnodion y fforwm cyswllt i'r Cadeiryddion Craffu. Dywedodd

Swyddogion, gan fod y pwyllgorau cyswllt yn gyrff allanol, na fyddai'r cofnodion yn cael eu dosbarthu i holl gynrychiolwyr y cyngor. Awgrymodd Swyddogion ymhellach, fel rhan o'r blaenraglen waith craffu, fod y cyngor yn dod o hyd i ffyrdd o wneud yn siŵr bod cadeiryddion yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac i geisio dod o hyd i ffyrdd o roi eitemau sefydlog ar agendâu ac ystyried y materion hynny.

Ystyriodd Swyddogion y pwyntiau a godwyd a dywedasant wrth edrych ar yr effeithiau ar y cwm a'r gweithlu, mai’r rheswm nad oedd unrhyw effeithiau wedi'u cofnodi ar yr adroddiad oedd oherwydd pwrpas yr adroddiad oedd manylu ar y broses sefydlu yn gyffredinol, ac roedd yn ymwneud yn benodol â'r fframwaith llywodraethu sydd wedi'i roi ar waith ynghyd â'r cylch gorchwyl. Nodwyd y byddai adroddiadau pellach sy'n manylu ar waith y prosiectau yn cynnwys yr effeithiau priodol.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Sefydlu Panel Cynghori mewn perthynas â'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd</u>

Hysbyswyd yr Aelodau am sefydlu Panel Cynghori mewn perthynas â'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd a chylch gorchwyl y Panel Cynghori Canolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd a sefydlwyd gan GCRE Ltd. Gofynnwyd iddynt hefyd gytuno ar gynrychiolwyr y cyngor i'r gwahanol bwyllgorau a sefydlwyd gan y Panel Cynghori, yn dilyn cais gan GCRE Ltd, yn unol â'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Cynhaliwyd y brif drafodaeth ar gyfer yr eitem hon dan Eitem 8. Nododd yr Aelodau y byddai angen iddynt sicrhau bod Cynrychiolwyr CNPT sydd ar y pwyllgorau hynny yn ymwybodol o bryderon pobl leol fel y gallant eu cynrychioli'n llawn.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Cam Un yr Adolygiad Llety</u>

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Swyddogion yn ceisio cymeradwyaeth i gau pump o adeiladau swyddfa gweithredol Cyngor Castell-nedd Port Talbot a datgan nad oes eu hangen mwyach at ddibenion gofynion gweithredol o 31 Mawrth 2023 yn unol â'r adroddiad.

Eglurodd Swyddogion mai pwrpas yr adolygiad o lety hwn yw galluogi'r awdurdod lleol i leihau nifer yr adeiladau y mae'r awdurdod yn eu defnyddio gan fod yr awdurdod yn talu rhent ar y rheini ac hefyd oherwydd y defnydd o ynni a biliau cyfleustodau eraill sy'n deillio o hynny ac sy'n gysylltiedig â'r adeiladau hynny sy'n cael eu defnyddio. Byddai lleihau nifer yr adeiladau'n helpu i leihau costau fel bod modd gwarchod gwasanaethau a sicrhau bod egwyddorion cynaladwyedd y mae'r awdurdod, Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth y DU eisiau eu cyflawni, sef carbon sero-net diogel erbyn 2030 yn cael eu bodloni.

Dywedodd Swyddogion y byddant yn ceisio defnyddio'r adeiladau sy'n cael eu cadw yn y tymor hir gan nad ydynt am symud staff i adeilad arall sy'n mynd i gostio i'r awdurdod ei weithredu neu fel arall eu symud i adeilad arall a allai fod yn rhan o gam diweddarach y strategaeth llety. Dywedodd Swyddogion mai cam un yn unig o strategaeth aml-gam yw hwn.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad a manylion ynghylch y mater ar dudalen 91/92 o'r adroddiad, lle mae hyd at chwe ystafell yn ysbyty Cimla yn cael eu cadw at ddibenion hyfforddi arbenigol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol ac roeddent yn gofyn am ragor o fanylion ynglŷn ag a oes llinell amser ar waith a phroses ar gyfer trefnu adleoli.

Dywedodd Swyddogion fod yr ystafelloedd wedi'u cadw ar gyfer hyfforddiant trafod â llaw ac nid oes amserlen ar gyfer Swyddogion i symud yr offer arbenigol a'i adleoli wedi'i phenderfynu, ond bydd Swyddogion yn rhoi gwybod i'r pwyllgor cyn gynted ag y bydd ganddynt un. Rhoddodd Swyddogion hefyd esboniad byr o’r hyn y byddai staff yn ei symud ac i ble y byddent yn symud iddo o ran y gwasanaethau cymdeithasol.

Cafwyd trafodaeth am fanylion yr adroddiad gyda'r Aelodau'n awgrymu y dylai'r adroddiad fod wedi cynnwys dadansoddiadau manwl ar bob cynnig ac esboniad ar y costau a fyddai'n cael eu harbed drwy gau'r adeiladau neu wrth ildio'r brydles. Cytunodd Swyddogion i ddarparu dadansoddiad manylach i’r Aelodau a'i ddosbarthu ar ôl y cyfarfod ynghyd â manylion pellach mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch diogelwch a'r costau parhaus o gadw a chynnal adeiladau gwag tan iddynt gael eu gwerthu. Dywedodd Swyddogion na fyddai angen i ddiogelwch fod yn bresennol ym mhob

eiddo. Byddai'r eiddo'n cael eu harchwilio ar ôl eu gadael er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel, a'r awdurdod fydd yn gyfrifol am ofal a chynnal a chadw'r eiddo yn y dyfodol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd gan yr awdurdod daliadau gwasanaeth a bydd dal angen gwresogi'r adeiladau o hyd tra'u bod yn wag er mwyn atal unrhyw leithder a dadfeilio. Dywedodd Swyddogion, o'i gymharu â'r costau yr eir iddynt gan adeiladau a ddefnyddir yn llawn neu'n rhannol, y bydd y costau'n llawer llai.

Roedd trafodaeth ynghylch goblygiadau posib ar gyfer dod â phrydlesi i ben gyda CGG a allai gael effaith gynyddol ar bobl leol a chreu costau yn y dyfodol. Mewn trafodaeth ragarweiniol gyda'r sefydliadau sy'n berchen ar yr adeiladau, dywedodd Swyddogion na fyddai effaith andwyol ar y perchnogion hynny oherwydd bod yr awdurdod yn gadael yr eiddo ar brydles.

Holodd yr Aelodau sut mae'r adroddiad yn cyflawni ei arbedion o ran y £158,000. Roedd yr Aelodau am ddeall a oedd hynny'n cynnwys ardrethi busnes ac a yw'n rhagdybio y bydd y ddau adeilad hynny'n cael eu gwerthu'n gyflym. Teimlai'r Aelodau fod diffyg manylion o ran a yw'r adroddiad yn tybio y bydd gan yr awdurdod y ddau eiddo o hyd am 12 mis. Teimlai'r Aelodau nad oedd digon o fanylion i ddeall yr hyn yr oeddent yn cytuno iddo a bod yr adroddiad wedi cael ei ddefnyddio i gydbwyso'r gyllideb, ond does dim sicrwydd y bydd yn dwyn ffrwyth. Mynegodd Aelodau bryderon y dylid cael rhagor o fanylion yn y papur cyllideb hwnnw a gofynnwyd i'r wybodaeth hon gael ei dosbarthu i bob aelod o'r cyngor gan ei bod yn berthnasol i'r gyllideb y bydd y cyngor yn penderfynu arni ym mis Mawrth.

Esboniodd Swyddogion fod nifer o ragdybiaethau yn yr adroddiad sydd wedi'u cynnwys yn y costau, gan na fydd Swyddogion yn gwybod y canlyniad gan ei fod yn gysylltiedig â marchnata'r eiddo hwnnw. Dywedodd Swyddogion mai Bwrdd y Cabinet sy'n gyfrifol am gymeradwyo gwerthu eiddo. Mynegodd Aelodau bryderon, heb wybod a yw'r rhagdybiaeth sydd wedi'i defnyddio wrth arbed costau yn dibynnu ar werthiant yr eiddo ac roedd rhai Aelodau yn teimlo'n anghyfforddus y gallant argymell penderfyniad a allai arwain at werthu adeilad heb eu bod wedi ystyried opsiynau eraill.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet gydag un aelod yn pleidleisio yn erbyn yr argymhelliad.

Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 22/23 o ddiwedd mis Rhagfyr 2022

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau mewn perthynas â chyflwyno Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn unol â'r adroddiad.

Rhoddodd Swyddogion hefyd drosolwg o'r adroddiad gan gynghori mai dyma'r adroddiad monitro ar gyfer y rhaglen gyfalaf o ddiwedd mis Rhagfyr. Roedd yn manylu bod y rhaglen gyfalaf flaenorol y cytunwyd arni gan y Cabinet yn £70.4 miliwn. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig rhaglen gyfalaf newydd ar gyfer eleni, sef £54 miliwn gyda nifer o ddiwygiadau y nodwyd yn yr adroddiad yn dangos y newidiadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn flaenorol i'r un a gynigiwyd gerbron y Cabinet.

Cododd Aelodau bryderon mewn perthynas â'r nifer o feysydd sydd wedi'u rhestru ar gyfer eu hailbroffilio a nifer y tanwariant drwy gydol yr adroddiad. Tynnodd yr Aelodau sylw at 29 maes ailbroffilio ar amcangyfrif o £21,000,000 ar gyfer y prosiectau cyfalaf y flwyddyn nesaf. Tynnodd yr Aelodau sylw at y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, y Fargen Ddinesig, Parc Margam, Byw â Chymorth a chynnal a chadw ysgolion fel meysydd yr oeddent am gael eglurder arnynt.

Cytunodd Swyddogion fod cryn dipyn o waith ailbroffilio i'w wneud. Esboniodd Swyddogion o ran y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, y cariwyd swm sylweddol o gyllideb ymlaen o 2021/22 oherwydd anallu i gael contractwyr i weithio yn ystod y pandemig, a ychwanegwyd at gyllideb 22/23. Oherwydd maint y gadwyn gyflenwi, cafodd ei ailbroffilio eto oherwydd eto, ni allant gael pobl i wneud y gwaith.

Esboniodd Swyddogion fod prinder adnoddau yn y tîm adfywio mewn perthynas â'r Fargen Ddinesig, a thrafferthion o ran gallu recriwtio pobl addas i dimau'r prosiect. Mae Swyddogion wedi bod yn gweithio drwy gydol y flwyddyn o ran ceisiadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ceisiadau'r Gronfa Codi'r Gwastad, cyrchfan Wild Fox etc., sy'n golygu bod rhai o brosiectau'r fargen ddinesig hynny wedi gorfod symud i'r flwyddyn nesaf.

Dywedodd Swyddogion hefyd fod Llywodraeth Cymru, o ran peth o'r rhaglen ysgol, wedi clustnodi arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn, felly mae hynny wedi symud yr arian i'r flwyddyn nesaf. Mae hyn yn golygu bod yr awdurdod yn gwario rhywfaint o arian Llywodraeth Cymru yn lle hynny. Esboniodd Swyddogion hefyd fod ffenestr gyfyngedig lle gallwch ymgymryd â gwaith cyfalaf mewn ysgolion felly mae yna broblem adnoddau a phroffilio.

O ran byw â chymorth, esboniodd Swyddogion ei fod yn gyfraniad y mae'r awdurdod yn ei wneud tuag at brosiect y mae Dinas a Sir Abertawe yn ei gynnal, sy'n golygu oedi o ran cyfraniad i'r prosiect hwnnw.

O ran Parc Margam, dywedodd Swyddogion fod gwaith pellach yn cael ei wneud o ran y prosiect yno, a disgwylir i'r adroddiad gael ei ddychwelyd cyn cyfarfod y Bwrdd Cabinet perthnasol yn fuan.

Roedd Aelodau eisiau gwybod beth mae Swyddogion yn ei wneud i fynd i'r afael â diffyg gweithlu mewn perthynas â gweithredu rhaglenni gwaith cyfalaf yn y dyfodol.

Eglurodd Swyddogion fod yr awdurdod wedi cryfhau sawl swyddogaeth yn y gyfarwyddiaeth amgylchedd ar draws Cynllunio, Priffyrdd ac Adfywio a bod yr awdurdod yn bwriadu gwneud yr un peth gyda'r arian sydd ganddynt o’r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Eglurwyd hefyd y bydd cynnig yn cael ei wneud yn ystod y misoedd nesaf a fydd yn ymwneud â rhai o'r buddsoddiadau mwy strategol sydd gan yr awdurdod ac ail-lunio'r ffordd y mae'r awdurdod yn ymateb i'r rheini.

Bydd cynigion pellach yn dod i'r amlwg yn ystod y misoedd nesaf sy'n golygu bod adnoddau ar gyfer y prosiectau mwy'n gyfyngedig. Eglurwyd nad yw'r awdurdod wedi gallu recriwtio pobl i dimau prosiect er gwaethaf ymdrechion helaeth i ddefnyddio gwahanol sianeli ar gyfer hysbysebu. Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi sicrhau cymeradwyaeth gan fwrdd y rhaglen i benodi ymgynghorydd i ymgymryd â dyletswyddau o ran y cam cyntaf fel bod yr awdurdod yn gallu gwneud cynnydd.

Mae gan yr awdurdod gofrestrau risg ar waith ar gyfer pob prosiect ac mae Swyddogion yn adrodd i fyrddau rhaglenni yn rheolaidd mewn perthynas â'r risgiau hynny ac mae Swyddogion yn hyderus y gallant gyflawni'r canlyniadau a nodwyd i ddechrau er eu bod yn amodol ar yr oedi y cyfeirir atynt yn yr eitem.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â diffyg manylder mewn adroddiadau ynghylch yr eitemau a drafodwyd, rhoddodd Swyddogion rywfaint o gyd-destun ynghylch y newid yn y proffil risg yr oedd angen i'r cynghorwyr ei reoli. Dywedodd y Prif Weithredwr, oherwydd bod llawer mwy o wybodaeth yn cael ei rhoi ym mhob adroddiad, mae'n cymryd hyd yn oed mwy o amser Swyddogion ac mae Swyddogion

yn ei chael hi'n anodd iawn mewn rhai meysydd o ran adnoddau ac anogwyd Aelodau i ofyn am ragor o fanylion i ddeall risgiau.

Gofynnodd yr Aelodau i Swyddogion a fydd unrhyw arian yn cael ei wario ar Sinema Canolfan Celfyddydau Pontardawe yn y flwyddyn ariannol nesaf. Gofynnodd yr Aelodau hefyd, o ystyried chwyddiant, y gallai'r prosiectau sy'n cael eu hailbroffilio ar yr un swm olygu y gallai fod angen rhywfaint o arian ychwanegol ar y prosiect.

Dywedodd yr Aelodau fod papurau'r gyllideb yn ei gwneud yn glir y bydd y prosiectau a'r canolfannau yn dechrau talu eu costau eu hunain yn llawn heb gymhorthdal. Teimlai'r Aelodau y gallai canolfannau cyhoeddus penodol ei chael hi'n anodd a nodwyd pwysigrwydd y drafodaeth ar y gyllideb sydd i ddod.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2022/2023 - o ddiwedd mis Rhagfyr 2022</u>

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau mewn perthynas â sefyllfa cyllideb refeniw ragamcanol y cyngor yn unol â'r adroddiad. Ychwanegodd Swyddogion hefyd eu bod yn falch o nodi mai'r amcanestyniad diweddaraf yw bod gorwariant y cyngor (ac eithrio ysgolion) wedi gostwng i £86,000 ar ôl symudiadau o ran arian wrth gefn.

Holodd yr Aelodau am dudalen 123, a'r adran a oedd yn ymwneud ag ardollau a chyfraniadau, ar wahân i'r Awdurdod Tân, rhestrodd yr adroddiad ardollau a chyfraniadau eraill. Roedd yr Aelodau am gael enghraifft o ba gyrff oedd y rheini.

Eglurodd Swyddogion fod £46,000 ar gyfer ardoll Awdurdod Iechyd Porthladd Abertawe, £1,000 ar gyfer ardoll Cyd-bwyllgor Amlosgfa Margam, a £117,000 ar gyfer ardoll y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae yna hefyd gyfraniad o £9,000 tuag at y Gwasanaeth Archifau a chyfraniad o £10,000 tuag at y Llys Ynadon o ystyried y cyfanswm o £270,000 a nodir.

Holodd yr Aelodau am adran yr adroddiad ar dudalen 119 a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth cyngor am dai a chefnogi tenantiaid sy'n rhagweld gorwariant o £656,000. Roedd yr adroddiad yn nodi ei fod wedi'i gynnwys mewn polisi. Amlygodd yr Aelodau nad yw'r adroddiad yn egluro sut y telir am y gorwariant.

Dywedodd Swyddogion ei fod yn newid ym mholisi Llywodraeth Cymru. Mae Swyddogion wedi ei gynnwys fel pwysau dan ystyriaeth. Eglurodd Swyddogion fod yr awdurdod yn ystyried y polisi ailgartrefu cyflym ac am weithredu hwnnw cyn gynted â phosib gan mai'r gobaith yw y bydd hynny'n lleihau rywfaint ohono. Dywedodd Swyddogion hefyd fod angen i'r awdurdod symud at ataliaeth yn y gobaith y bydd yn lleihau'r gorwariant, gan ddweud bod Swyddogion yn gweithio ar ymagwedd wahanol at dod o hyd i gartrefi i bobl dros y misoedd nesaf a'u bod yn gwneud llawer o waith y tu ôl i'r llenni i geisio lleihau'r gorwariant. Dywedodd wrth yr Aelodau y byddant yn cael eu diweddaru'n fanylach yn ystod y misoedd nesaf.

Roedd Aelodau'n cydymdeimlo â gwaith Swyddogion ac yn siomedig nad yw'r newid mewn deddfwriaeth wedi'i ariannu a nodwyd ei fod yn fater o lobïo Llywodraeth Cymru i geisio cyllid ar gyfer materion o'r fath.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Adroddiad Monitro'r Gofrestr Risgiau 2022/2023</u>

Cafodd yr Aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf am Risgiau Strategol y cyngor yn unol â'r adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau am y risg o dirlithriad ym Mhant-teg, Cyfyng Road. Esboniodd Swyddogion y cafwyd problemau o ran dymchwel cam un o Cyfyng Road. Mae'r awdurdod yn cysylltu â pherchnogion yr eiddo ac mae'r cyfreithwyr sy'n gweithredu ar eu rhan yn gwneud diwygiadau munud olaf ar hyn o bryd na fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth sylweddol i'r canlyniad.

Mae gan Swyddogion fanylion Iechyd a Diogelwch a Rheoli Dylunio Adeiladu'r contractwr, sydd wedi cael eu hystyried yn fewnol, gyda'r contractwyr yn gobeithio bod ar y safle ganol mis Mawrth. Dywedodd Swyddogion y bydd yr awdurdod yn hysbysu'r gymuned leol bythefnos cyn dechrau ar y safle bod y gwaith yn mynd yn ei flaen i ddymchwel cam un a'u bod yn gobeithio y bydd gan yr awdurdod fomentwm ar gyfer cam dau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cam dau yn fwy cymhleth gan fod y cwmnïau yswiriant yn dal i fethu â thalu perchnogion yr eiddo hynny gan nad ydynt o'r farn bod problem iechyd a diogelwch go iawn yn gysylltiedig â'r eiddo hynny. Mae Swyddogion yn gobeithio, unwaith y

dechreuir ar gam un y bydd yn anfon neges glir i'r cwmnïau yswiriant a gellir symud ymlaen gyda cham dau.

Gofynnodd yr Aelodau am y risg nad oedd buddsoddiad digonol ym mhrif isadeiledd y cyngor ac roeddent am wybod a yw'r awdurdod wedi ystyried y risg o gynnal a chadw'r adeiladau wrth lunio'r gofrestr risgiau. Yn ogystal ag a oedd hi'n bosib cael cofnod o gyflwr cyfredol ei holl adeiladau, a yw’r risg honno wedi'i hystyried a'i hasesu ac os nad ydynt wedi bodloni'r meini prawf i’w rhoi ar y gofrestr.

Esboniodd Swyddogion ei bod yn ymddangos bod mesurau lliniaru ar goll o'r adroddiad gan fod gan yr awdurdod gynlluniau rheoli asedau eiddo ond mae'n ymddangos nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Er enghraifft, mae'r sail y mae'r awdurdod yn dewis ysgolion o fewn y rhaglen strategol Gwella Ysgolion yn ystyried y risgiau sy'n ymwneud â'r adeiladau. Ailadroddodd Swyddogion fod dulliau ar waith sydd wedi asesu'r risgiau sy'n ymwneud ag asedau eiddo'r awdurdod, ond mae'n ymddangos bod y llinellau sy'n ymwneud â chynnal a chadw adeiladau wedi cael eu gadael allan ar yr ailadroddiad hwn o'r adroddiad yn ddamweiniol.

Cytunwyd bod rhywfaint o fanylion ar goll o'r adroddiad sy'n adlewyrchu'r trefniadau ynghylch rheoli asedau eiddo a byddai'r rheini'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad nesaf y tro nesaf.

Cytunwyd hefyd y byddai Swyddogion yn dosbarthu copi o'r Cynllun Rheoli Asedau i Aelodau.

## 5. RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL 2022/23

Penderfynodd Aelodau eu bod am ychwanegu adroddiad creu incwm 2022/2023 at y Blaenraglen Waith.

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

## 6. EITEMAU BRYS

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

**CHAIRMAN**